Arolygiad dan Adran 10
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996

Ysgol Gymraeg Treganna
Heol Radnor
Caerdydd
CF5 1RB

Rhif yr Ysgol: 6812173

Dyddiad yr Arolygiad: 3 Ebrill 2006

gan

Dr David G Evans
78706

Dyddiad Cyhoeddi: 9 Mehefin 2006

Dan rif contract Estyn: 1116405

Diben Estyn yw gwella ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

* ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir neu a ddefnyddir gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
* ysgolion cynradd;
* ysgolion uwchradd;
* ysgolion arbennig;
* unedau cyfeirio disgyblion;
* ysgolion annibynnol;
* addysg bellach;
* dysgu oedolion yn y gymuned;
* gwasanaethau cymorth ieuenctid;
* AALlau;
* addysg a hyfforddiant athrawon;
* dysgu yn y gwaith;
* cwmnïau gyrfaoedd; ac
* elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

* yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
* yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob gofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2006 Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. O dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl heb fod yn fwy na chost atgynhyrchu ar eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gymraeg Treganna fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Gymraeg Treganna rhwng 03/04/06 a 05/04/06. Comisiynwyd yr arolygiad, gan dîm annibynnol o arolygwyr, a arweiniwyd gan Dr David G Evans. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol, ond a ariennir gan, Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae yna dri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, mae yna adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, nid oes adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, mae adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, mae adroddiadau ar yr holl bynciau hefyd.

Mae Estyn yn penderfynu ar y math o arolygiad a gaiff ysgol, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Caiff pob ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgolion newydd neu ysgolion wedi'u huno arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol.**

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac yn y blaen. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13	B14
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18	18-19

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys Tudalen

Cyd-destun 1

Crynodeb 1

Argymhellion 8

Safonau 8

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? 8

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant 10

Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? 10

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? 12

Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? 14

Arweinyddiaeth a rheolaeth 16

Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? 16

Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? 17

Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? 18

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu 19

Dan bump oed 19
Cymraeg iaith cyntaf 21
Mathemateg 21
Celf 23
Addysg gorfforol 23
Addysg grefyddol 24

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad 25

Atodiadau 26
A Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol 26
B Data a dangosyddion ysgol 26
C Canlyniadau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol 27
D Sail dystiolaeth yr arolygiad 28
E Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu 29

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Cafodd yr ysgol gynradd sirol Cymraeg ei chyfrwng yma ei sefydlu yn 1987 yn yr adeilad presennol, gyda dim ond un dosbarth, fel un o grŵp o ysgolion dynodedig Cymraeg yn gwasanaethu dinas a sir Caerdydd. Mae niferoedd wedi cynyddu'n ddramatig dros y blynyddoedd ac, ar hyn o bryd, mae yno saith dosbarth a 170 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae pob dosbarth wedi ei leoli ar y llawr gwaelod ac mae hefyd un dosbarth mewn caban.
2. Mae dalgylch yr ysgol yn ymestyn o Heol y Bontfaen yn y de i gaeau Llandaf yn y gogledd ac o'r afon Tâf yn y dwyrain i Barc Fictoria yn y gorllewin. Daw mwyafrif y disgyblion o'r ardal gymharol gywasgedig yma. Disgrifir yr ardal fel un sydd ddim yn llewyrchus nac o dan anfantais economaidd.
3. Ar hyn o bryd mae 17 disgybl ar y gofrestr anghenion addysg arbennig (AAA) ac nid oes gan un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol.
4. Daw 70% o'r disgyblion o gartrefi lle mae Saesneg yw'r brif iaith; ar hyn o bryd, siarada tua 80% o'r disgyblion Gymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfwerth.
5. Dim ond 0.01% o'r disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.
6. Cafodd yr ysgol ei harolygu diwethaf ym mis Chwefror 2000.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

7. Blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer datblygiad yn 2005-2006 yw:
    - datblygu rôl yr arweinydd cwricwlwm;
    - datblygu pwnc dylunio a thechnoleg;
    - adolygu'r cynllun darllen Cymraeg;
    - paratoi ar gyfer y Cam Sylfaen;
    - hyrwyddo asesiad ar gyfer addysgu a dysgu; ac
    - adolygu cynllun gwaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Crynodeb

8. Mae Treganna yn ysgol dda gyda nifer o nodweddion rhagorol. Mae addysgu o'r safon uchaf yn galluogi disgyblion i gyflawni'n dda iawn. Mae gwerthusiad yr ysgol o'i gwaith yn drwyadl iawn ac mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn nodweddion rhagorol. Mae'r ystod eang o brofiadau dysgu sydd ar gael i'r disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth i'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r gofal, cefnogaeth a'r arweiniad a ddarperir gan yr ysgol hefyd yn dda gyda nodweddion rhagorol. Gwna Ysgol Treganna ddefnydd helaeth o dechnoleg newydd i hyrwyddo ei gweledigaeth o addysg ddwyieithog yn y ganrif newydd.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn allweddol		Gradd arolygu
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 1
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 1
3	Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 1
4	Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 1
5	Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	Gradd 1
6	Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 1
7	Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 2

Safonau

9. Barnwyd safonau cyflawniad disgyblion yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
30%	61%	9%	0%	0%

10. Mae'r ffigurau yma yn sylweddol uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) ar gyfer Cymru gyfan erbyn 2007 i 65% o safonau cyflawniad i fod yn radd 2 neu well.

Pynciau a/neu Feysydd Dysgu ar gyfer Plant dan bump oed,

11. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion ac mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 1
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 1
Datblygiad mathemategol	Gradd 1
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 1
Datblygiad creadigol	Gradd 1
Datblygiad corfforol	Gradd 1

Graddau ar gyfer safonau mewn pynciau a arolygwyd

12. Yng Nghyfnod Allweddol (CA) 1 a CA2, yn y pynciau a arolygwyd, roedd safonau cyflawniad fel a ganlyn:

Meysydd Arolygu	CA1	CA2
Cymraeg iaith gyntaf	Gradd 1	Gradd 1
Mathemateg	Gradd 1	Gradd 1
Celf	Gradd 2	Gradd 2
Addysg gorfforol	Gradd 2	Gradd 2
Addysg grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

13. Gwna'r plant dan bump gynnydd da iawn yn y medrau sylfaenol. Mae eu cynnydd mewn sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg ac mewn hyfedredd dwyieithrwydd yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae eu safonau yn y defnydd o TGCh, mewn rhifedd, eu sgiliau personol a chymdeithasol, eu medrau creadigol a datrys problemau yn dda gyda nodweddion rhagorol.

14. Yn CA1 a CA2, mae safonau a chynnydd disgyblion mewn sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg ac mewn hyfedredd dwyieithrwydd o ansawdd ragorol. Mae eu safonau yn y defnydd o TGCh, mewn rhifedd, yn eu medrau personol a chymdeithasol, mewn medrau creadigol a datrys problemau yn dda gyda nodweddion rhagorol.

15. Gwna disgyblion ag AAA gynnydd da iawn trwyddi draw a chyflawnant y targedau a osodwyd ar eu cyfer.

16. Yn CA1 yn 2005, roedd y safonau mewn asesiadau athrawon mewn Cymraeg a mathemateg yn sylweddol uwch na chyfartaleddau cenedlaethol a'r awdurdod addysg lleol (AALl). O'u cymharu gydag ysgolion tebyg, roedd y canlyniadau yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymraeg a mathemateg ac yn y trydydd chwartel ar gyfer gwyddoniaeth. Mae canlyniadau wedi bod yn gyson dda ac yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ers 2003. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched.

17. Yn CA2 yn 2005, roedd safonau asesiadau athrawon yn sylweddol uwch na chyfartaleddau cenedlaethol a'r AALl, gyda'r oll o'r disgyblion yn cyrraedd y lefel disgwyliedig cenedlaethol o gyflawniad mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. O'u cymharu gydag ysgolion tebyg, roedd perfformiad yn y pedwar pwnc yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd. Mae safonau wedi bod yn gyson uchel yn y pedwar pwnc craidd dros y tair blynedd diwethaf. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched.

18. Mae disgyblion yn llwyddo'n dda iawn, waeth beth yw eu cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol. Gwna pob disgybl, waeth beth eu hoed, rhyw, gallu neu ethnigrwydd, gynnydd rhagorol wrth gaffael medrau newydd, gwybodaeth a dealltwriaeth a chyflawni'r targedau a osodwyd ar eu cyfer.

19. Datblyga medrau personol, cymdeithasol a dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus iawn ac mae hyn yn nodwedd ragorol o'r ysgol. Mae disgyblion yn astud iawn yn y dosbarth ac yn ymroi yn gydwybodol i'w tasgau. Yn ddieithriad, maent yn cynnal eu canolbwyntio ac yn gweithio'n dawel a diwyd. Dangosant agweddau cadarnhaol iawn tuag at ddysgu a lefelau uchel iawn o ddiddordeb yn eu gwaith. Maent yn cydweithio'n frwdfrydig ac yn gweithio'n dda mewn grwpiau ac mewn parau. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda gyda nodweddion eithriadol.

20. Roedd ymddygiad cyffredinol disgyblion yn ganmoladwy ac yn nodwedd ragorol o'r ysgol. Maent yn gwrtais, yn foesgar iawn, yn ymateb yn dda iawn i'r systemau gwobrwyo ac yn arddangos lefel uchel o hunanddisgyblaeth. Ar draws y dydd maent yn symud yn synhwyrol o amgylch yr ysgol ac yn awyddus i gynorthwyo ymwelwyr. O ganlyniad mae ansawdd bywyd o fewn yr ysgol yn rhagorol.

21. Paratoant yn dda ar gyfer cyfranogiad effeithiol yn y gweithle a'r gymuned. Maent yn codi arian sylweddol ar gyfer achosion lleol a chenedlaethol.

22. Cyfartaledd y presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyn yr arolygiad oedd 95.4%. Mae traddodiad cryf o lefelau uchel o bresenoldeb yn yr ysgol. Mynycha'r holl ddisgyblion yr ysgol yn rheolaidd ac yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

23. Barnwyd ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
60%	33%	7%	0%	0%

24. Yn y gwersi a arsylwyd, roedd canrannau gradd 1 a 2 yn uwch na thargedau LlCC.

25. Arsylwyd addysgu rhagorol ar draws yr ysgol ac mae hyn wedi bod yn ffactor allweddol wrth alluogi'r ysgol i ddatblygu mor gyflym. Mae nifer o enghreifftiau o arfer rhagorol:

- cynllunio athrawon, sydd yn ysgogol a heriol;
- defnydd athrawon o ystod eang ac effeithiol iawn o ddulliau addysgu;
- rheolaeth gadarn a chyson iawn o ymddygiad yn y mwyafrif o ddosbarthiadau;
- athrawon yn meithrin perthnasau cadarnhaol a chytûn iawn yn y dosbarthiadau;
- ym mhob gwers, cynllunnir gwaith i gefnogi disgyblion o bob gallu ac athrawon yn gwneud darpariaeth ragorol ar gyfer gwahanol anghenion dysgu disgyblion;
- defnydd athrawon o TGCh, a'r byrddau gwyn rhyngweithiol yn benodol, sydd yn nodwedd ragorol ac arloesol yn yr ysgol; ac
- athrawon â gwybodaeth bynciol gyfoes ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol iawn mewn gwersi.

26. Yn y gwersi a barnwyd yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig, roedd y nodweddion canlynol yn nodedig:

- athrawon gyda gwersi da eu strwythur;
- defnyddiant ystod eang o strategaethau i sicrhau fod disgyblion yn mwynhau dysgu;
- cynhyrchant adnoddau diddorol, o ansawdd dda sydd yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da mewn perthynas â'u hoedran a'u gallu; a
- maent yn cyflawni cydbwysedd priodol yn y dosbarth rhwng cyflwyniadau athrawon a gweithgareddau addysgu.

27. Yn y nifer fach o wersi lle'r oedd nodweddion da yn gorbwyso diffygion:

- roedd cyflymder y wers yn anghyson;
- nid yw addysgu yn ysgogi disgyblion i weithio'n gynhyrchiol mewn gwers; a
- nid yw rheolaeth dosbarth mor effeithiol.

28. Mae ansawdd yr asesu, cofnodi ac adrodd ar gyfer plant yn y dosbarth derbyn yn gywir, trwyadl a chynhwysfawr. Mae hyn yn helpu athrawon i gynllunio profiadau ystyrlon a pherthnasol i'w plant.

29. Mae ansawdd yr asesu ar draws gweddill yr ysgol yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig. Sylfaenir asesiad yn y pynciau craidd ar wybodaeth glir a theilwng wedi ei gasglu oddi wrth ystod o ffynonellau. Caiff cynnydd disgyblion eu tracio'n ofalus er mwyn galluogi athrawon i gydweddu gwaith i anghenion disgyblion a gosod targedau ar gyfer y dysgwyr. Mae hyn yn arbennig o effeithiol ar gyfer disgyblion ag AAA. Mae trefniadaeth asesu yn llawn cwrdd â'r gofynion.

30. Mae asesiadau yn y pynciau sylfaen, a phortffolios o waith yn y pynciau craidd a sylfaen, yn datblygu'n briodol. Mae marcio yn aml o ansawdd dda, ond mae'r arfer yn anghyson ar draws yr ysgol. Nid yw marcio bob amser yn arwain disgyblion i'w helpu i wella eu gwaith.

31. Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu am gynnydd eu plant gan yr athrawon mewn nosweithiau rieni a thrwy adroddiadau blynyddol ysgrifenedig. Mae'r adroddiadau diwedd blwyddyn yn cwrdd â'r gofynion statudol ac yn darparu targedau ar gyfer gwelliant i'r disgyblion. Fodd bynnag, yn aml nid yw sylwadau pynciol yn ddigon manwl, yn enwedig ar gyfer meysydd y pynciau craidd.

32. Ceir nifer o nodweddion rhagorol yn y cwricwlwm sydd yn gryfder yn yr ysgol. Yn gyffredinol, mae ansawdd ac ystod y profiadau dysgu sydd ar gael i'r disgyblion yn dda iawn; mae'r ysgol yn ymateb yn dda iawn i anghenion disgyblion ac yn darparu mynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sydd eisoes yn bodoli.

33. Mae'r ysgol yn darparu'n dda iawn ar gyfer yr ystod gyfan o anghenion disgyblion, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag AAA, ac i'r rhai sydd yn ddawnus a thalentog.

34. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau sylfaenol ac allweddol disgyblion yn nodwedd ragorol o'r ysgol ac yn treiddio'n effeithiol iawn drwy gynllunio athrawon yn holl bynciau a meysydd y cwricwlwm.

35. Mae datblygiad medrau a hyfedredd dwyieithrwydd disgyblion yn greiddiol i amcanion ac athroniaeth yr ysgol. Caiff ei hyrwyddo'n effeithiol iawn yn holl agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol.

36. Ceir darpariaeth dda iawn ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion; mae'r ysgol yn darparu rhaglen dda iawn i gefnogi addysg bersonol a chymdeithasol y disgyblion.

37. Mae gan yr ysgol weithdrefnau cryf iawn ar gyfer hyrwyddo cyfartaledd mynediad a chyfle. Caiff disgyblion, waeth beth yw eu cefndir cymdeithasol, rhyw neu ethnigrwydd, eu cynnwys yn gadarnhaol yn holl weithgareddau priodol yr ysgol. Mae hyn yn nodwedd ragorol o'r ysgol.

38. Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol ac agweddau cadarnhaol tuag at ddatblygiad cynaliadwy yn y disgyblion. Mae'r ysgol yn y broses o geisio am achrediad Eco-Ysgolion.

39. Mae safon y gofal, arweiniad a chefnogaeth i ddisgyblion yn rhagorol. Cynllunir rhaglenni cymorth yn ofalus a chânt eu hintegreiddio'n dda iawn i mewn i waith yr ysgol er mwyn cwrdd ag anghenion disgyblion a sicrhau cyfartaledd cyfle. Mae gan yr ysgol ethos cadarnhaol iawn a theimla pob disgybl y caiff ei werthfawrogi fel unigolyn.

40. Ceir partneriaeth dda rhwng yr ysgol a rhieni a gofalwyr ac mae'n gweithio'n galed i'w ymwneud yn addysg eu plant. Caiff trefniadau sefydlu'r plant lleiaf wrth ddechrau'r ysgol eu cynllunio a'u gweithredu'n ofalus. Mae yno hefyd trefniadau pontio da iawn gyda'r ysgol uwchradd sydd yn cefnogi disgyblion B6 yn effeithiol iawn wrth iddynt baratoi ar gyfer eu hysgol newydd.

41. Caiff ymddygiad disgyblion ei fonitro'n agos iawn. Mae aelodau staff yn gyson wrth gymhwyso polisïau ar gyfer rheolaeth ymddygiad ac mae holl oedolion yr ysgol yn fodelau rôl da iawn. Mae polisïau a systemau effeithiol iawn mewn lle er mwyn monitro presenoldeb a phrydlondeb.

42. Ceir polisi iechyd a diogelwch cynhwysfawr ac mae'r oll staff yn ymwybodol o faterion a berthyn i les disgyblion. Nodwyd un achos o iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad a chafodd ei rhannu gyda'r ysgol.

43. Nodwedd ragorol o'r ysgol yw'r ddarpariaeth dda iawn ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Ceir systemau effeithiol iawn ar gyfer dynodi anghenion addysgol ar gyfnod cynnar. Mae'r broses o asesu, gosod targedau ac adolygu yn cynnwys y disgyblion a'r rhieni ar bob cam.

44. Ceir polisi effeithiol a gweithdrefnau cadarn ar gyfer diogelu plant, ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'r rhain. Mae gan yr ysgol bolisi a chynllun gweithredu effeithiol iawn ar gyfer cydraddoldeb hiliol. Caiff pob achos ei gofnodi'n ofalus pan, ac os, byddant yn codi.

45. Mae'r ysgol wedi ymgymryd ag awdit i asesu'r amodau ar gyfer mynediad i'r anabl. Darparwyd un ramp er mwyn sicrhau mynediad hawdd i'r dosbarth yn y caban tu allan ac mae'r ysgol yn awr yn weithredol wrth geisio ffyrdd i wella mynediad ymhellach.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

46. Mae ansawdd cyffredinol yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda gyda nodweddion rhagorol ac yn dangos bod gwelliant arwyddocaol wedi ei gyflawni ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r nodweddion rhagorol yn cynnwys:

    - yr arweinyddiaeth gampus a ddarperir gan y pennaeth;
    - y cymorth da iawn a ddarperir gan y dirprwy bennaeth; ac
    - ansawdd uchel y drefn lywodraethol a ddarperir gan y corff llywodraethol.

47. Mae'r pennaeth yn darparu ymdeimlad cryf iawn o gyfeiriad i'r ysgol, wedi ei seilio ar dargedau ar gyfer gwelliant a sefydlwyd yn dda, a'u deellir gan bawb sy'n gysylltiedig. Mae ei ddylanwad yn treiddio'r ysgol gyfan ac mae'r holl staff yn cydnabod hyn, gan gynnwys staff nad ydynt yn addysgu, llywodraethwyr a rhieni.

48. Yn sylfaenol i amcanion a gwerthoedd yr ysgol yw ei ymrwymiad wrth geisio cyfartaledd cyfle i bawb, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn holl agweddau bywyd yr ysgol. Mae hyn mor gymwys i ddisgyblion ag yw i'r holl staff sy'n gweithio yn yr ysgol.

49. Mae'r pennaeth a'r Uwch Dîm Reoli (UDRh) yn rhoi cyfeiriad clir i waith yr ysgol ac yn rhannu gyda gweddill y staff yr ymdeimlad cyffredin o bwrpas ar gyfer gwelliant. Mae aelodau o'r UDRh yn cwrdd yn rheolaidd i osod a chynnal arweiniad strategol yn natblygiad ysgol. Er bod rhai cydlynwyr pwnc ond yn

wedi cymryd eu cyfrifoldebau yn gymharol ddiweddar, maent yn hollol ymwybodol o sut y gallant symud eu pynciau a'u meysydd ymlaen.

50. Dangosa'r ysgol ymrwymiad cryf i ddatblygu arbenigedd staff addysgu a chefnogi. Mae'r ysgol yn cwrdd â'r gofynion statudol ar gyfer gostwng llwyth gwaith. Mae rheoli perfformiad yn rhan integreiddiol o weithdrefnau rheolaethol yr ysgol ac wedi bod yn effeithiol iawn wrth godi ansawdd yr addysgu a'r dysgu ers yr arolygiad diwethaf, gyda'r gwelliant dilynol mewn safonau cyflawniad.

51. Cymra'r ysgol ystyriaeth dda iawn o flaenoriaethau cenedlaethol, partneriaethau lleol a chytundebau clwstwr. Menter sefydledig ragorol yw'r datblygiad o TGCh ar draws yr ysgol. Caiff aelodau staff fynediad hawdd a sydyn i wefannau addysgol priodol. Darperir ystod eang o wybodaeth i rieni, gan gynnwys manylion dwyieithog, a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd, o'r gwaith cartref diweddaraf a osodwyd gan athrawon dosbarth.

52. Mae'r corff llywodraethol brwdfrydig a chryf ei chymhelliad yn effeithiol iawn, wedi ei hysbysu'n dda ac yn ymwneud yn agos ym mywyd yr ysgol. Maent yn cwrdd â'r holl ymrwymiadau statudol a chânt eu monitro'n rheolaidd. Chwaraea'r llywodraethwyr rôl bwysig wrth osod cyfeiriad strategol yr ysgol ac maent yn monitro darpariaeth yr ysgol yn effeithiol. Mae'r drefn reolaethol yn nodwedd ragorol o'r ysgol.

53. Arddangosa'r ysgol ddiwylliant cadarnhaol, hunan-feirniadol lle mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr wedi gweithio'n galed i wella ansawdd yr addysgu a'r safonau cyflawniad ers yr arolygiad diwethaf. Mae hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi eu mewnosod yn dda iawn yn holl agweddau o waith yr ysgol ac mae diwylliant o ddisgwyliadau uchel yn treiddio ethos yr ysgol.

54. Mae'r ysgol yn asesu a rhannu ei chryfderau a'r ardaloedd ar gyfer gwelliant trwy Gynllun Datblygu Ysgol (CDY) sydd yn ffocysu'n dda. Mae'n amlinellu'n glir anghenion a chyfrifoldebau'r ysgol a'r goblygiadau cyllidol ac yn gosod graddfeydd amser manwl. Mae'r CDY yn ddogfen weithiol ddefnyddiol iawn gyda meini prawf llwyddiant mesuradwy penodol.

55. Mae'r adroddiad hunan-arfarnu a gynhyrchwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae'n ddogfen gynhwysfawr ac yn ganlyniad i broses hunan-arfarnu helaeth.

56. Ymatebodd yr ysgol yn dda iawn i'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol ac mae wedi gwneud cynnydd da iawn ers yr arolygiad diwethaf.

57. Ceir nifer digonol o staff yn yr ysgol ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae'r holl aelodau staff wedi cymhwyso'n briodol gydag ystod o brofiad. Yn gyffredinol mae cyfrifoldebau pwnc yn cydweddu gyda chymwysterau cychwynnol ac mae ganddynt wybodaeth ddigonol i addysgu holl agweddau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC). Defnyddir staff cefnogi yn dda o fewn y dosbarthiadau, mae ganddynt swyddogaethau clir, disgrifiadau swydd wedi eu diffinio'n dda a gwnânt gyfraniad da i weithgareddau dosbarth.

58. Mae ansawdd ac ystod yr adnoddau dysgu yn dda gyda dim diffygion pwysig.

59. Er bod aelodau staff yn gwneud pob ymdrech i wella ardaloedd mewnol yr ysgol trwy arddangosiadau deniadol, mae yna nifer o ddiffygion i'r adeilad: mae'r neuadd yn goridor cul sydd ddim yn darparu gofod digonol ar gyfer gwersi

addysg gorfforol, yn enwedig i'r disgyblion hŷn; mae'r ffreutur yn rhy fach; mae diffyg gofod storio ar draws yr ysgol; mae'r dosbarthiadau derbyn a CA1 yn fach ac yn cyfyngu ar rhai gweithgareddau; dim ond un toiled sydd ar gyfer aelodau'r staff; mae'n rhaid defnyddio'r ystafell athrawon yn rheolaidd ar gyfer pwrpas addysgu; a nodwyd un mater iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad a chafodd ei drafod gyda'r corff llywodraethol.

60. Tu allan, mae'r maes chwarae yn fach ac mae rhaid i'r disgyblion rhannu'r iard gydag ysgol gyfagos. Caiff egwyl y bore a phrynhawn eu gorgyffwrdd yn aml er mwyn lleddfu'r sefyllfa. Mae'r ysgol a'i thir yn rhydd o sbwriel a fandaliaeth.

61. Mae systemau ar gyfer rheolaeth gyllidol o ddydd i ddydd yn sefydledig a chaiff adnoddau eu cydweddu'n dda i flaenoriaethau ysgol-gyfan ar gyfer datblygiad.

Argymhellion

Er mwyn adeiladau ar y gwelliannau sylweddol a wnaed ers yr arolygiad diwethaf, mae angen i'r ysgol:

A1 ymateb i'r her o gynnal safonau da a thargedu nodweddion rhagorol yn yr holl feysydd pwnc;

A2 barhau i ddatblygu ymhellach agweddau o weithdrefnau asesu'r ysgol;

A3 fynd i'r afael ar frys gyda'r materion yn gysylltiedig â'r adeilad a nodwyd yng nghwestiwn allweddol 7; a

A4 fynd i'r afael ar frys gyda'r mater iechyd a diogelwch a drafodwyd gyda'r corff llywodraethol.

Mae argymhellion 2 a 3 eisoes yn cael eu blaenoriaethu gan yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio ei gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o gael yr adroddiad, gan ddangos yr hyn fydd yr ysgol yn ei wneud ynghylch yr argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

62. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd gyda'r arfarniad a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu gan i'r ysgol raddio'r cwestiwn allweddol yma yn Radd 2. Wrth gyrraedd ei barn, cymrodd y tîm arolygu sylw arbennig o gynnydd disgyblion a'u perfformiad uchel parhaus yn asesiadau'r CC.

63. Yn ystod yr arolygiad, roedd safonau cyflawniad disgyblion yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
30%	61%	9%	0%	0%

64. Mae'r ffigurau yma yn sylweddol uwch na thargedau LICC ar gyfer 2007 i 65% o safonau cyflawniad i fod yn radd 2 neu well.

Meysydd dysgu ar gyfer y plant dan bump

65. Dangosa asesiadau gwaelodlin fod cyrhaeddiad medrau allweddol ar fynediad i'r ysgol yn o leiaf canolig, ond gwna'r plant gynnydd sylweddol yn y dosbarth derbyn. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion ac mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 1
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 1
Datblygiad mathemategol	Gradd 1
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 1
Datblygiad creadigol	Gradd 1
Datblygiad corfforol	Gradd 1

66. Yn CA1 a CA2, yn y pynciau a arolygwyd, roedd safonau cyflawniad fel a ganlyn:

Meysydd Arolygu	**CA1**	**CAS2**
Cymraeg iaith gyntaf	Gradd 1	Gradd 1
Mathemateg	Gradd 1	Gradd 1
Celf	Gradd 2	Gradd 2
Addysg gorfforol	Gradd 2	Gradd 2
Addysg grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

67. Gwna'r plant dan bump gynnydd rhagorol yn y medrau allweddol i gyd. Mae eu cynnydd mewn medrau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg a'u hyfedredd dwyieithrwydd yn rhagorol. Mae eu safonau yn y defnydd o TGCh, mewn rhifedd, medrau personol a chymdeithasol a sgiliau creadigol a datrys problemau yn dda gyda nodweddion rhagorol.

68. Yn CA1 a CA2, mae safonau a chynnydd disgyblion mewn medrau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg a'u hyfedredd dwyieithrwydd o ansawdd rhagorol. Mae eu safonau yn y defnydd o TGCh, mewn rhifedd, yn eu medrau personol a chymdeithasol ac mewn medrau creadigol a datrys problemau yn dda gyda nodweddion rhagorol.

69. Gwna disgyblion ag AAA gynnydd da iawn yn gyffredinol a chyflawnant y targedau a osodir ar eu cyfer.

70. Yn CA1 yn 2005, roedd y safonau mewn asesiadau athrawon mewn Cymraeg a mathemateg yn sylweddol uwch na chyfartaleddau cenedlaethol a'r AALl. O'u cymharu gydag ysgolion tebyg, roedd y canlyniadau yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymraeg a mathemateg ac yn y trydydd chwartel ar gyfer gwyddoniaeth. Mae canlyniadau wedi bod yn gyson dda ac yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ers 2003. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched.

71. Yn CA2 yn 2005, roedd safonau asesiadau athrawon yn sylweddol uwch na chyfartaleddau cenedlaethol ag AALl, gyda'r oll o'r disgyblion yn cyrraedd y lefel disgwyliedig cenedlaethol o gyflawniad mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg

a gwyddoniaeth. O'u cymharu gydag ysgolion tebyg, roedd perfformiad yn y pedwar pwnc yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd. Mae safonau wedi bod yn gyson uchel yn y pedwar pwnc craidd dros y tair blynedd diwethaf. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched.

72. Mae disgyblion yn llwyddo'n dda iawn, waeth beth yw eu cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol. Gwna pob disgybl, waeth beth eu hoed, rhyw, gallu neu ethnigrwydd, gynnydd rhagorol wrth gaffael medrau newydd, gwybodaeth a dealltwriaeth a chyflawni'r targedau a osodwyd ar eu cyfer.

73. Datblyga medrau personol, cymdeithasol a dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus iawn ac mae hyn yn nodwedd ragorol o'r ysgol. Mae disgyblion yn astud iawn yn y dosbarth ac yn ymroi yn gydwybodol i'w tasgau. Yn ddieithriad, maent yn cynnal eu canolbwyntio ac yn gweithio'n dawel a diwyd. Dangosant agweddau cadarnhaol iawn tuag at ddysgu a lefelau uchel iawn o ddiddordeb yn eu gwaith. Maent yn cydweithio'n frwdfrydig ac yn gweithio'n dda mewn grwpiau ac mewn parau. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda gyda nodweddion eithriadol.

74. Roedd ymddygiad cyffredinol disgyblion yn ganmoladwy ac yn nodwedd ragorol o'r ysgol. Maent yn gwrtais, yn foesgar iawn, yn ymateb yn dda iawn i'r systemau gwobrwyo ac yn arddangos lefel uchel o hunanddisgyblaeth. Ar draws y dydd maent yn symud yn synhwyrol o amgylch yr ysgol ac yn awyddus i gynorthwyo ymwelwyr. O ganlyniad mae ansawdd bywyd o fewn yr ysgol yn rhagorol.

75. Mae disgyblion hŷn yn sensitif i anghenion y rhai ieuengaf. Mae gan y Cyngor Ysgol a'r Criw Iard rhan bwysig i chwarae wrth gynnal perthnasau da a sicrhau fod gan bawb ffrind ar adegau egwyl a chinio. Cymera'r disgyblion eu cyfrifoldebau o ddifri a dangosant cryn ymrywiad i'w rôl.

76. Datblyga disgyblion ymdeimlad cryf o ddinasyddiaeth ac yn ehangu hyn trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol, megis cystadlaethau a chyngherddau'r Urdd. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda iawn o faterion cyfle cyfartal. Dangosant barch at oedolion a chyfoedion, beth bynnag eu cefndir, a datblygant ddealltwriaeth dda iawn o'r angen i dderbyn a gwerthfawrogi amrywiaeth o fewn cymdeithas.

77. Paratoant yn dda ar gyfer cyfranogiad effeithiol yn y gweithle a'r gymuned. Maent yn codi arian sylweddol ar gyfer achosion lleol a chenedlaethol.

78. Cyfartaledd y presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyn yr arolygiad oedd 95.4%. Mae traddodiad cryf o lefelau uchel o bresenoldeb yn yr ysgol. Mynycha'r holl ddisgyblion yr ysgol yn rheolaidd ac maent yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

79. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn gwahaniaethu oddi wrth hunan-arfarniad yr ysgol gan iddynt ddyfarnu'r cwestiwn allweddol yma yn Radd 2. Mae addysgu, sydd yn dda gyda nodweddion rhagorol, yn agwedd eithriadol yn yr ysgol.

80. Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Grade 1	Grade 2	Grade 3	Grade 4	Grade 5
60%	33%	7%	0%	0%

81. Yn y gwersi a arsylwyd, roedd canrannau gradd 1 a 2 yn uwch na thargedau LICC.

82. Arsylwyd addysgu rhagorol ar draws yr ysgol ac mae hyn wedi bod yn ffactor allweddol wrth alluogi'r ysgol i ddatblygu mor gyflym. Mae nifer o enghreifftiau o arfer rhagorol, sydd yn cynnwys:

- cynllunio athrawon, sydd yn ysgogol a heriol;
- defnydd athrawon o ystod eang ac effeithiol iawn o ddulliau addysgu;
- rheolaeth gadarn a chyson iawn o ymddygiad yn y mwyafrif o ddosbarthiadau;
- athrawon yn meithrin perthnasau cadarnhaol a chytûn iawn yn y dosbarthiadau;
- ym mhob gwers, cynllunir gwaith i gefnogi disgyblion o bob gallu ac athrawon yn gwneud darpariaeth ragorol ar gyfer gwahanol anghenion dysgu disgyblion;
- defnydd athrawon o TGCh, a'r byrddau gwyn rhyngweithiol yn benodol, sydd yn nodwedd ragorol ac arloesol yn yr ysgol; ac
- athrawon â gwybodaeth bynciol gyfoes ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol iawn mewn gwersi.

83. Yn y gwersi a barnwyd yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig, roedd y nodweddion canlynol yn nodedig:

- athrawon gyda gwersi da eu strwythur;
- defnyddiant ystod eang o strategaethau i sicrhau fod disgyblion yn mwynhau dysgu;
- cynhyrchant adnoddau diddorol, o ansawdd dda sydd yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da mewn perthynas â'u hoedran a'u gallu; a
- maent yn cyflawni cydbwysedd priodol yn y dosbarth rhwng cyflwyniadau athrawon a gweithgareddau addysgu.

84. Yn y nifer fach o wersi lle'r oedd nodweddion da yn gorbwyso diffygion:

- roedd cyflymder y wers yn anghyson;
- nid yw addysgu yn ysgogi disgyblion i weithio'n gynhyrchiol mewn gwers; a
- nid yw rheolaeth dosbarth mor effeithiol.

85. Mae ansawdd yr asesu, cofnodi ac adrodd ar gyfer plant yn y dosbarth derbyn yn gywir, trwyadl a chynhwysfawr. Mae hyn yn helpu athrawon i gynllunio profiadau ystyrlon a pherthnasol i'w plant.

86. Mae ansawdd yr asesu ar draws gweddill yr ysgol yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig. Sylfaenir asesu yn y pynciau craidd ar wybodaeth glir a theilwng wedi ei gasglu oddi wrth ystod o ffynonellau. Caiff cynnydd disgyblion eu tracio'n ofalus er mwyn galluogi athrawon i gydweddu gwaith i anghenion disgyblion a gosod targedau ar gyfer y dysgwyr. Mae hyn yn arbennig o effeithiol ar gyfer disgyblion ag AAA. Mae trefniadaeth asesu yn llawn cwrdd â'r gofynion.

87. Mae asesu yn y pynciau sylfaen, a phortffolios o waith yn y pynciau craidd a sylfaen, yn datblygu'n briodol. Mae marcio yn aml o ansawdd da, ond mae'r arfer yn anghyson ar draws yr ysgol. Nid yw marcio bob amser yn arwain disgyblion a'u helpu i wella eu gwaith.

88. Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu am gynnydd eu plant gan yr athrawon mewn nosweithiau rieni a thrwy adroddiadau blynyddol ysgrifenedig. Mae'r adroddiadau diwedd blwyddyn yn cwrdd â'r gofynion statudol ac yn darparu targedau ar gyfer gwelliant i'r disgyblion. Fodd bynnag, yn aml nid yw sylwadau pynciol yn ddigon manwl, yn enwedig ar gyfer meysydd y pynciau craidd.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

89. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn gwahaniaethu oddi wrth hunan-arfarniad yr ysgol gan i'r ysgol farnu'r cwestiwn allweddol yma yn Radd 2. Mae nifer o nodweddion eithriadol i'r cwricwlwm ac mae yn gryfder yn yr ysgol.

90. Yn gyffredinol, mae ansawdd ac ystod y profiadau dysgu sydd ar gael i'r disgyblion yn dda iawn; mae'r ysgol yn ymateb yn dda iawn i anghenion disgyblion ac yn darparu mynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sydd eisoes yn bodoli.

91. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion ac mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

92. Mae'r ysgol yn darparu'n dda iawn ar gyfer yr ystod gyfan o anghenion disgyblion, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag AAA, ac i'r rhai sydd yn ddawnus a thalentog.

93. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau sylfaenol ag allweddol disgyblion yn nodwedd ragorol o'r ysgol ac yn treiddio'n effeithiol iawn drwy gynllunio athrawon yn holl bynciau a meysydd ar draws y cwricwlwm.

94. Mae datblygiad medrau a hyfedredd dwyieithrwydd disgyblion yn greiddiol i amcanion ag athroniaeth yr ysgol. Caiff ei hyrwyddo'n effeithiol iawn yn holl agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol, ac mae pwyslais clir ar astudio treftadaeth a diwylliant Cymru o fewn y cwricwlwm. Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn arfer sydd wedi ei fewnosod yn gadarn a chaiff ei ddathlu'n eang ar draws yr ysgol.

95. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da iawn ar gyfer dysgu y tu allan i'r ysgol sydd yn cyfoethogi ac yn ymestyn y cwricwlwm yn dda iawn. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o adnoddau sydd o fewn cerdded i'r campws, megis Parc Thomson a Neuadd Llanofer. Caiff disgyblion gyfleoedd i ymweld â nifer o lefydd o ddiddordeb addysgol, megis Techniquest, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, stiwdio'r BBC yng Nghaerdydd, Canolfan Celfyddydau Chapter, Neuadd Llancaiach a Chanolfan y Mileniwm. Mae nifer o gyrsiau preswyl, mewn llefydd megis Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog, a digwyddiadau cystadleuol rheolaidd mewn amrywiol eisteddfodau ar draws Cymru.

96. Caiff profiadau disgyblion eu hybu a'u cyfoethogi ymhellach trwy amrywiaeth o weithgareddau a thwrnameintiau allgyrsiol; er enghraifft, Campau'r Ddraig, Rygbi'r Ddinas, Cymdeithas Pêl-fasged Cymru, Gwersi nofio ASA, Criced Cyflym a sesiynau hyfforddiant pêl droed.

97. Ceir darpariaeth dda gyda nodweddion eithriadol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Darpara cyfnodau cyd-addoli cyfleoedd da i ddisgyblion i fyfyrio ar eu bywydau beunyddiol. Mae'r berthynas rhwng y disgyblion a'r athrawon yn ogystal â rhwng y disgyblion eu hunain yn nodweddion cryf iawn o'r ysgol. Anogir disgyblion i fod yn onest, teg, parchus ac i ymddwyn yn gyfrifol.

98. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen dda iawn i gefnogi addysg bersonol a chymdeithasol y disgyblion. Mae athrawon yn annog disgyblion i fod yn onest a sensitif am eu pryderon mewn amrywiaeth wahanol o ffyrdd. Cynhwysa'r rhain gwasanaethau ysgol, cyfarfodydd cyngor ysgol ac yn ystod trafodaethau 'amser cylch' yn y dosbarth. Darpara prosiectau arloesol megis y 'Criw Iard' gyfleoedd da iawn i ddisgyblion i gymryd y cam cyntaf ac ymwneud eu hunain mewn gwneud penderfyniadau.

99. Mae'r ysgol yn elwa oddi wrth ystod eang o gysylltiadau gyda nifer o ddarparwyr a buddgyfranogwyr yn yr ardal. Mae cysylltiadau gyda sefydliadau hyfforddiant i athrawon ag eraill yn gryf, felly hefyd y cysylltiadau gyda'r gwasanaethau cymdeithasol ag iechyd. Mae partneriaeth yr ysgol gyda'r rhieni, y gymuned leol a'r ysgol uwchradd sydd yn derbyn y disgyblion yn dda gyda nodweddion rhagorol. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda iawn o ddatblygiadau yn yr ysgol trwy gylchlythyron rheolaidd, nosweithiau agored, cyfweliadau personol gydag aelodau staff, prosbectws defnyddiol ac adroddiad blynyddol cynhwysfawr iawn y corff llywodraethol.

100. Un nodwedd nodedig, ragorol o'r ysgol yw'r safwe arloesol sydd yn llawn gwybodaeth, gyda man penodol i rieni gysylltu gyda'r ysgol ar-lein. Mae safwe'r ysgol yn galluogi rhieni i roi sylwadau ar waith eu plant, i ofyn cwestïynau priodol i aelodau unigol o'r staff, i gael mynediad at dudalennau gwybodaeth a thasgau gwaith cartref wythnosol; ac, yn ychwanegol, mae strategaethau defnyddiol ar lein i gefnogi rhieni di-Gymraeg. Caiff esiamplau o waith disgyblion hefyd eu harddangos ar safwe'r ysgol.

101. Mae gan yr ysgol weithdrefnau cryf iawn ar gyfer hyrwyddo cyfartaledd mynediad a chyfle. Caiff disgyblion, waeth beth yw eu cefndir cymdeithasol, rhyw neu ethnigrwydd, eu cynnwys yn gadarnhaol yn holl weithgareddau priodol yr ysgol. Dysga'r ysgol y disgyblion i ymfalchïo yn eu hysgol a'r gymuned leol, i ddangos parch at ei gilydd, ac i ddatblygu'n llawn fel dinasyddion hyderus. Mae hyn yn nodwedd ragorol o'r ysgol.

102. Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol ac agweddau cadarnhaol tuag at ddatblygiad cynaliadwy yn y disgyblion. Mae'r ysgol yn y broses o geisio am achrediad Eco-Ysgolion ac mae tystiolaeth ddigonol i ddynodi ymwybyddiaeth gynyddol o faterion ailgylchu a lleihau gwastraff. Caiff pob disgybl fynediad at ddŵr yn ystod y diwrnod ysgol, naill ai oddi wrth y ffynnon ddŵr neu'r poteli dŵr personol.

103. Mae nifer o aelodau o'r staff, gan gynnwys y pennaeth, wedi elwa oddi wrth secondiad yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r rhain wedi helpu cyfoethogi profiadau cwricwlaidd y disgyblion ymhellach byth.

104. Mae profiadau dysgu trawsgyrsiol a ddatblygwyd yn dda iawn yn galluogi disgyblion i gaffael y wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a'r ymagweddau priodol ar gyfer dysgu gydol oes ac adferiad cymunedol. Er y ceir cysylltiadau da gyda diwydiant, mae'r ysgol yn derbyn fod hwn yn ardal sydd yn dal i ddatblygu.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

105. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu â'r arfarnniad a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu, gan i'r ysgol farnu'r cwestiwn allweddol yma fel Gradd 2. Mae safon y gofal, arweiniad a chefnogaeth i ddisgyblion yn rhagorol.

106. Cynllunir raglenni cymorth yn ofalus a chânt eu hintegreiddio'n dda iawn i mewn i waith yr ysgol er mwyn cwrdd ag anghenion disgyblion a sicrhau cyfartaledd cyfle. Mae gan yr ysgol ethos cadarnhaol iawn a theimla pob disgybl y caiff ei werthfawrogi fel unigolyn. Mae pob aelod o'r staff yn adnabod ac yn deall anghenion unigol eu disgyblion, ac yn cefnogi cynnydd academaidd a phersonol y disgyblion yn effeithiol iawn. Caiff llwyddiant unigol, cyflawniad ac ymddygiad da eu dathlu yn rheolaidd.

107. Ceir partneriaeth dda rhwng yr ysgol a rhieni a gofalwyr ac mae'n gweithio'n galed i'w ymwneud yn addysg eu plant. Mae hyn yn nodwedd ragorol. Mae cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig yn effeithiol iawn. Mae cyswllt anffurfiol dyddiol da iawn, yn arbennig ar gyfer y plant ieuengaf. Mae mwyafrif helaeth yr ysgol yn gefnogol iawn o'r ysgol ac mae ganddynt gysylltiadau da gyda'r ysgol.

108. Caiff trefniadau sefydlu'r plant lleiaf wrth ddechrau'r ysgol eu cynllunio a'u gweithredu'n ofalus ac maent yn nodweddion rhagorol. Mae yno hefyd drefniadau pontio da iawn gyda'r ysgol uwchradd; mae'r rhain yn cefnogi disgyblion B6 yn effeithiol iawn wrth iddynt baratoi ar gyfer eu hysgol newydd. Gall rieni sianelu unrhyw sylwadau neu bryderon yn syth i'r ysgol, naill ai yn bersonol neu trwy safwe'r ysgol.

109. Caiff medrau personol a chymdeithasol disgyblion eu hybu yn rheolaidd gan yr ysgol trwy amrywiaeth o ddulliau megis 'amser cylch', ac mae'n darparu lefel uchel o gefnogaeth ac arweiniad ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae disgyblion yn ymwybodol iawn o reolau'r ysgol ac yn eu dilyn yn ofalus am eu bod am gefnogi eu hathrawon a glynu at god ymddygiad yr ysgol. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn cymryd ystyriaeth lawn o argymhellion cenedlaethol ac yn llawn cwrdd â'r gofynion. Gweithia'r ysgol yn agos gydag asiantaethau cefnogi allanol; mae gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, aelodau o'r gwasanaethau tân a'r heddlu yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i siarad gyda'r disgyblion a rhannu eu profiadau a'u harbenigeddau gyda nhw.

110. Caiff ymddygiad disgyblion ei fonitro'n agos iawn. Mae aelodau staff yn gyson wrth gymhwyso polisïau ar gyfer rheolaeth ymddygiad ac mae holl oedolion yr ysgol yn fodelau rôl da iawn. Mae goruchwylwyr canol-dydd yn monitro

ymddygiad disgyblion yn ofalus yn ystod yr awr ginio. Mae trefniadau i annog disgyblion i ymddwyn yn dda yn effeithiol iawn. Mae polisïau effeithiol iawn mewn lle i sicrhau fod disgyblion bob amser yn ymddwyn yn gyfrifol.

111. Mae iechyd a ffitrwydd disgyblion yn ystyriaeth bwysig iawn i'r staff ac mae'r ysgol wedi gweithio'n agos gydag amrywiol asiantaethau ar nifer o fentrau i sicrhau y rhoir arweiniad cynnar i ddisgyblion ar gyfer creu dull iachus o fyw. Mae'r cynllun cyd-chwarae, 'Criw'r Iard', yn datblygu'n dda iawn i wneud iard yr ysgol yn amgylchedd cyffrous, diogel a heriol. Mae datblygiadau diweddar yn cynnwys wal ddringo ochrol a gemau pêl cylchyn.

112. Mae polisïau a systemau effeithiol iawn mewn lle er mwyn monitro presenoldeb a phrydlondeb. Mae'r swyddog lles addysg yn ymwneud yn agos â bywyd yr ysgol. Caiff disgyblion â phresenoldeb da a rhai sydd yn dangos gwelliant yn eu presenoldeb eu gwobrwyo.

113. Mae oedolion yn yr ysgol yn ymwybodol iawn o anghenion penodol disgyblion ac maent yn wybodus iawn o'r gweithdrefnau pe ddigwydd damwain neu argyfwng. Ceir polisi iechyd a diogelwch cynhwysfawr ac mae'r oll staff yn ymwybodol o faterion a berthyn i les disgyblion. Nodwyd un achos o iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad a chafodd ei rhannu gyda'r ysgol.

114. Nodwedd ragorol o'r ysgol yw'r ddarpariaeth dda iawn ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Ceir systemau effeithiol iawn ar gyfer dynodi anghenion addysgol ar gyfnod cynnar. Mae'r broses o asesu, gosod targedau ac adolygu yn cynnwys y disgyblion a'r rhieni ar bob cam. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol Gynlluniau Addysg Ychwanegol (CAUau) sydd yn cynnwys targedau penodol priodol a chyraeddadwy. Mae'r CAUau o ansawdd dda iawn a chânt eu defnyddio yn effeithiol iawn gan athrawon a staff cefnogi er mwyn cynllunio gwaith disgyblion.

115. Caiff y gefnogaeth ar gyfer disgyblion sydd yn cael eu neilltuo o wersi am gyfnodau byr eu trefnu a'u strwythuro yn dda. Mae staff cefnogi yn gweithio'n effeithiol iawn gyda'r disgyblion ag AAA, maent yn hollol ymwybodol o dargedau'r disgyblion ac yn ymateb i'w hanghenion yn sensitif iawn. Caiff disgyblion ag AAA fynediad at gwricwlwm eang a chytbwys trwy integreiddiad effeithiol iawn i mewn i ddosbarthiadau prif ffrwd.

116. Ceir polisi effeithiol a gweithdrefnau cadarn ar gyfer diogelu plant, ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'r rhain. Mae'r ysgol yn cadw'r cofnodion yn gyfrinachol ac yn ddiogel.

117. Mae gan yr ysgol bolisi clir i ymateb i ymddygiad aflonyddgar pan, ac os, byddant yn codi. Mae rhaglen ymyrraeth a chefnogaeth dda yn mynd i'r afael yn gyflym ag anghenion disgyblion sydd yn amharu ar eu cynnydd nhw a disgyblion eraill. Mae'r defnydd o strategaethau 'Amser Cylch' ac 'Amser Allan' yn profi i fod yn effeithiol iawn. Caiff nifer o'r materion yma eu trafod mewn modd aeddfed yn ystod cyfarfodydd cyngor ysgol.

118. Mae gan yr ysgol bolisi a chynllun gweithredu effeithiol iawn ar gyfer cydraddoldeb hiliol. Caiff pob achos ei gofnodi'n ofalus pan, ac os, byddant yn codi.

119. Mae'r ysgol wedi ymgymryd ag awdit i asesu'r amodau ar gyfer mynediad i'r anabl. Darparwyd un ramp er mwyn sicrhau mynediad hawdd i'r dosbarth yn y

caban tu allan ac mae'r ysgol yn awr yn weithredol wrth geisio ffyrdd i wella mynediad ymhellach.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

120. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn gwahaniaethu oddi wrth adroddiad hunan-arfarniad yr ysgol. Arfarnodd yr ysgol y cwestiwn allweddol yma yn Radd 2, ond ym marn y tîm arolygu roedd yno nodweddion rhagorol yn y dull y mae'r ysgol yn cael ei harwain a'i rheoli.

121. Mae ansawdd cyffredinol yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda gyda nodweddion rhagorol ac yn dangos bod gwelliant arwyddocaol wedi ei gyflawni ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r nodweddion rhagorol yn cynnwys:

- yr arweinyddiaeth gampus a ddarperir gan y pennaeth;
- y cymorth da iawn a ddarperir gan y dirprwy bennaeth; ac
- ansawdd uchel y drefn lywodraethol a ddarperir gan y corff llywodraethol.

122. Mae'r pennaeth yn darparu ymdeimlad cryf iawn o gyfeiriad i'r ysgol, wedi ei seilio ar dargedau ar gyfer gwelliant a sefydlwyd yn dda, a'u deellir gan bawb sydd yn gysylltiedig. Mae ei ddylanwad yn treiddio'r ysgol gyfan ac mae'r holl staff yn cydnabod hyn, gan gynnwys staff nad ydynt yn addysgu, llywodraethwyr a rhieni.

123. Yn sylfaenol i amcanion a gwerthoedd yr ysgol yw ei ymrwymiad wrth geisio cyfartaledd cyfle i bawb a chaiff hyn ei adlewyrchu yn holl agweddau bywyd yr ysgol. Mae'r un mor gymwys i ddisgyblion ag yw i'r holl staff sy'n gweithio yn yr ysgol.

124. Mae'r pennaeth a'r UDRh yn rhoi cyfeiriad clir i waith yr ysgol ac yn rhannu gyda gweddill y staff yr ymdeimlad cyffredin o bwrpas ar gyfer gwelliant. Mae aelodau o'r UDRh yn cwrdd yn rheolaidd i osod a chynnal arweiniad strategol yn natblygiad ysgol. Er bod rhai cydlynwyr pwnc ond wedi cymryd eu cyfrifoldebau yn gymharol ddiweddar, maent yn hollol ymwybodol o ddatblygiadau a sut y gallant symud eu pynciau a'u meysydd ymlaen.

125. Dangosa'r ysgol ymrwymiad cryf i ddatblygu arbenigedd staff addysgu a chefnogi. Mae'r ysgol yn cwrdd â'r gofynion statudol ar gyfer gostwng llwyth gwaith. Mae rheoli perfformiad yn rhan integreiddiol o weithdrefnau rheolaethol yr ysgol ac wedi bod yn effeithiol iawn wrth godi ansawdd yr addysgu a'r dysgu ers yr arolygiad diwethaf, gyda'r gwelliant dilynnol mewn safonau cyflawniad.

126. Cymra'r ysgol ystyriaeth dda iawn o flaenoriaethau cenedlaethol, partneriaethau lleol a chytundebau clwstwr. Menter sefydledig ragorol yw'r datblygiad o TGCh ar draws pob agwedd o waith yr ysgol. Caiff aelodau staff fynediad hawdd a sydyn i wefannau addysgol priodol. Darperir ystod eang o wybodaeth i rieni, gan gynnwys manylion dwyieithog, a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd, o'r gwaith cartref diweddaraf a osodwyd gan athrawon dosbarth.

127.Mae'r corff llywodraethol brwdfrydig a chryf ei chymhelliad yn effeithiol iawn, wedi ei hysbysu'n dda ac yn ymwneud yn agos ym mywyd yr ysgol. Maent yn cwrdd â'r holl ymrwymiadau statudol a chânt eu monitro'n rheolaidd. Mae system pwyllgor effeithiol iawn mewn lle sydd yn chwarae rhan sylweddol wrth adolygu polisïau ag arfer. Chwaraea'r llywodraethwyr rôl bwysig wrth osod cyfeiriad strategol yr ysgol ac maent yn monitro darpariaeth yr ysgol yn effeithiol. Mae llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd a chânt eu cadw'n llwyr ymwybodol o holl agweddau bywyd yr ysgol gan y pennaeth. Mae'r drefn reolaethol yn nodwedd ragorol o'r ysgol.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

128.Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn gwahaniaethu oddi wrth yr arfarniad Gradd 2 yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu. Arfarnodd y tîm arolygu fod yna nodweddion rhagorol yn y dull y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau.

129.Arddangosa'r ysgol ddiwylliant cadarnhaol, hunan-feirniadol lle mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr wedi gweithio'n galed i wella ansawdd yr addysg a'r safonau cyflawniad ers yr arolygiad diwethaf. Mae hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi eu mewnosod yn dda iawn yn holl agweddau o waith yr ysgol ac mae diwylliant o ddisgwyliadau uchel yn treiddio ethos yr ysgol.

130.Mae mwyafrif helaeth y cydlynwyr cwricwlwm wedi eu hysbysu'n dda am safonau yn eu meysydd o gyfrifoldeb. Maent yn tynnu ar wybodaeth uniongyrchol yn eu harfarniadau o safonau disgyblion a defnyddir y canlyniadau yn dda iawn i fwydo'r cynllunio. Mae mwyafrif y cydlynwyr wedi gwneud arolygon manwl iawn a da eu ffocws o'u pynciau yn unol â chwestiynau allweddol yr arolygiad; ac maent wedi cynhyrchu cynlluniau gweithredu effeithiol iawn sydd yn ffocysu'n glir iawn ar welliannau yn eu pynciau ac agweddau.

131.Caiff ansawdd yr addysgu ei fonitro'n effeithiol iawn gan y pennaeth a chydlynwyr cwricwlwm. Mae gan yr ysgol drefniadau sydd wedi datblygu'n dda iawn ar gyfer monitro ei darpariaeth, a chaiff y ffynonellau gwybodaeth sydd yn deillio o hyn eu gwerthuso a'u lleoli yn ofalus er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliant.

132.Mae'r ysgol yn asesu a rhannu ei chryfderau a'r ardaloedd ar gyfer gwelliant trwy CDY pwrpasol sydd yn ffocysu'n dda. Mae'n amlinellu'n glir anghenion a chyfrifoldebau'r ysgol a'r goblygiadau cyllidol ac yn gosod graddfeydd amser manwl. Mae'r CDY yn ddogfen weithiol, ddefnyddiol iawn gyda meini prawf llwyddiant mesuradwy penodol. Sicrha'r pennaeth a'r llywodraethwyr y ddarpariaeth o adnoddau da er mwyn cyflawni'r targedau allweddol.

133.Mae'r adroddiad hunan-arfarnu a gynhyrchwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae'n ddogfen gynhwysawr ac yn ganlyniad i broses hunan-arfarnu helaeth. Mae'n dynodi nifer o gryfderau'r ysgol a rhai meysydd i'w datblygu ac yn amlinellu'n glir y dystiolaeth i gefnogi a chyfiawnhau'r datganiadau a wnaed.

134.Cytunodd y tîm arolygu gyda barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu mewn un o'r cwestïynau allweddol. Dyfarnwyd gradd uwch ar gyfer y cwestïynau eraill.

135.Ymatebodd yr ysgol yn dda iawn i'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol ac mae wedi gwneud cynnydd da iawn ers yr arolygiad diwethaf. Oherwydd y gweithdrefnau trwyadl rhagorol, mae'r safonau a gyflawna disgyblion, ansawdd cyffredinol yr addysgu, y cwricwlwm, a'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda gyda nodweddion rhagorol.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

136.Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu gyda'r arfarniad a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarniad.

137.Ceir nifer digonol o staff yn yr ysgol ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae'r holl aelodau staff wedi cymhwyso'n briodol gydag ystod o brofiad. Yn gyffredinol mae cyfrifoldebau pwnc yn cydweddu gyda'u cymwysterau cychwynnol a'u diddordebau ac mae ganddynt wybodaeth ddigonol i addysgu holl agweddau'r CC. Mae rhaglen hyfforddiant-mewn-swydd effeithiol yn sicrhau ymwybyddiaeth dda gan athrawon o gynlluniau newydd ac mae eu medrau rheolaethol wedi eu datblygu'n dda; mae pob un yn ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol. Mae trefniadau sefydlu ar gyfer staff newydd yn effeithiol.

138.Mae'r ysgol yn gweithredu'n briodol wrth ymwneud â gofynion 'lleihau baich athrawon' drwy ryddhau athrawon am gyfnodau di-gyswllt. Mae'r athrawon yn defnyddio'r amser hwn yn effeithlon.

139.Defnyddir staff cefnogi yn dda o fewn y dosbarthiadau, mae ganddynt swyddogaethau clir, disgrifiadau swydd wedi eu diffinio'n dda a gwnânt gyfraniad da i weithgareddau dosbarth. Gwna'r ysgol hefyd ddefnydd effeithiol o unigolion ac athrawon teithiol er mwyn hybu'r dysgu.

140.Mae ansawdd ac ystod yr adnoddau dysgu yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig. Ceir byrddau gwyn rhyngweithiol yn y mwyafrif, ond nid oll, o'r dosbarthiadau, ac mae'r rhain yn cyfrannu'n sylweddol i'r defnydd rhagorol o TGCh ar draws yr ysgol. Darpara'r llyfrgelloedd sydd wedi eu hadnoddu'n dda gyfleusterau da ar gyfer ymchwil annibynnol.

141.Er bod aelodau staff yn gwneud pob ymdrech i wella ardaloedd mewnol yr ysgol trwy arddangosfeydd deniadol, mae yna nifer o ddiffygion i'r adeilad: mae'r neuadd yn goridor cul sydd ddim yn darparu gofod digonol ar gyfer gwersi addysg gorfforol, yn enwedig i'r disgyblion hŷn; mae'r ffreutur yn rhy fach; mae diffyg gofod storio ar draws yr ysgol; mae'r dosbarthiadau derbyn a CA1 yn fach ac yn cyfyngu ar rai gweithgareddau; dim ond un toiled sydd ar gyfer aelodau'r staff; mae'n rhaid defnyddio'r ystafell athrawon yn rheolaidd ar gyfer pwrpas addysgu; a nodwyd un mater iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad a chafodd ei drafod gyda'r corff llywodraethol.

142.Tu allan, mae'r maes chwarae yn fach ac mae rhaid i'r disgyblion rhannu'r iard gydag ysgol gyfagos. Caiff egwyl y bore a phrynhawn eu gorgyffwrdd yn aml er mwyn lleddfu'r sefyllfa. Mae'r ysgol a'i thir yn rhydd o sbwriel a fandaliaeth.

143.Mae systemau ar gyfer rheolaeth gyllidol o ddydd i ddydd yn sefydledig a chaiff adnoddau eu cydweddu'n dda i flaenoriaethau ysgol-gyfan ar gyfer datblygiad. Mae'r corff llywodraethol yn monitro gwariant yn effeithiol ac yn adolygu a gwerthuso'r defnydd o adnoddau yn rheolaidd. Caiff egwyddorion gwerth gorau eu cymhwyso'n dda. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Dan bump oed

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

144.Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion ac mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

145.Gwrandawa'r plant yn astud iawn ar storïau a gallant adalw rhediad stori 'Y Bath Mawr Coch', yn nhrefn y digwyddiadau. Gallant adalw rhigymau a chaneuon gyda symudiadau yn annibynnol a gallant ail-ddweud eu profiadau eu hunan yn dda iawn i'r dosbarth. Maent yn cyfathrebu yn dda iawn trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod gweithgareddau ysgol-gyfan a grŵp.

146.Gall plant drafod, ymddiddan a dadansoddi digwyddiadau a ddangoswyd mewn arddangosfeydd, lluniau a llyfrau. Maent yn adnabod geiriau unigol ac yn defnyddio lluniau fel awgrym i hybu'r darllen. Datblygant eu hiaith lafar yn dda iawn drwy chwarae rôl y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae plant yn ysgrifennu geiriau ac yn adeiladu brawddegau syml yn unigol.

Datblygiad personol a chymdeithasol

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

147.Cydweithia'r plant yn dda iawn yn y dosbarth a deallant bwysigrwydd rheolau'r dosbarth. Nodweddion rhagorol yw'r berthynas agos iawn a hapus sydd ganddynt a'i gilydd a'r gofal a pharch a ddangosant tuag at ei gilydd.

148.Maent yn ymwybodol o anghenion eraill ac yn ymddwyn yn briodol wrth chwarae gemau dosbarth ac yn ystod adegau egwyl ar iard yr ysgol. Pan fydd cymeriadau o'r stori 'Y Bath Mawr Coch' yn gosod problem creu bubbles ar gyfer y bath i'r plant, maent yn gallu rhannu cyfarpar a chefnogi syniadau eraill yn dda iawn mewn grwpiau. Maent yn gwisgo eu hunain ar gyfer chwarae tu allan ac ar gyfer chwarae rôl.

149.Ymateba'r plant i brofiadau dysgu gyda hyder, a chymrant gyfrifoldeb am eu heiddo eu hunain.

Datblygiad mathemategol

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

150.Mae datblygiad mathemategol y plant yn rhagorol. Maent yn gallu rhifo yn hyderus i 20 ac ymhellach, trefnu, adio a thynnu allan wrth ddatrys problemau hyd at 10. Maent yn adnabod siapau dau-ddimensiwn syml yn dda iawn ac maent yn gallu eu disgrifio gyda chywirdeb. Trafodant feintiau yn effeithiol iawn, er enghraifft wrth chwarae tu allan yn y 'Bath Mawr Coch', ac maent yn datrys ystod gynyddol o broblemau yn effeithiol iawn.

151.Gallant adnabod, ail-greu ac ailadrodd patrymau, didoli gwrthrychau ac egluro'r rhesymau am eu dewis, er enghraifft wrth greu cymeriadau anifeiliaid allan o leiniau, a gwrthrychau bob dydd. Gallant amcangyfrif faint o ddŵr sydd angen i greu swigod yn yr hambwrdd ddŵr, a defnyddiant iaith fathemategol yn dda iawn.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

152.Siarada'r plant yn hyderus am eu cartrefi. Gallant ymateb i gwestiynu yn dda iawn, gwneud arsylwadau clir iawn a datgan eu barn am y gymuned leol a gwahanol rannau o ddinas Caerdydd. Mae ganddynt wybodaeth dda iawn o'r tywydd a'r newidiadau yn y tymhorau a sicrhânt y caiff siart dywydd y dosbarth ei gynnal yn ddyddiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o amser ac o ddilyniant digwyddiadau. Maent yn ymwybodol fod yna amrywiaeth o swyddi sydd angen gwahanol wisgoedd ag offer. Mae eu medrau ymchwiliol yn rhagorol ac maent yn gallu dewis deunyddiau addas ar gyfer canlyniadau cynlluniedig. Datblyga eu sgiliau technoleg gwybodaeth yn dda iawn; gallant reoli'r llygoden i symud gwrthrychau ar y sgrin; gallant greu lluniau deniadol iawn a gwnânt ddefnydd da iawn o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Datblygiad creadigol

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

153.Gweithia'r plant yn frwdfrydig, mwynhânt chwarae rôl a defnyddiant iaith briodol wrth berfformio 'Y Bath Mawr Coch'. Symudant gyda dychymyg a hyder mewn ymateb i amrywiaeth o ysgogiadau a chymrant ran yn frwdfrydig yn ystod sesïynau canu. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o liw a chymysgant liwiau melyn tywyll a golau i greu *collage* o gyw Pasg. Gallant siarad yn synhwyrol gydag oedolyn am y gwaith sydd ar droed ac ystyried eu gwaith er mwyn gwella'r cynnyrch gorffenedig. Gwna'r plant ddraig gwir-faint allan o ystod o ddeunyddiau ysgogol er mwyn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Datblygiad corfforol

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

154.Defnyddia'r plant ystod eang o gyfarpar bach a mawr gyda medr a hyder cynyddol a deallant a gwerthfawrogant y gwahaniaeth rhwng rhedeg, cerdded, sgipio, neidio a hercian. Gallant ddehongli geirfa trwy symudiadau ac ymateb i ystod o gyfarwyddiadau lleoliadol. Symuda'r plant yn hyderus a gydag ymdeimlad cynyddol o reolaeth. Gwnânt ddefnydd da iawn o'r gofod sydd ar gael iddynt.

Diffygion

155.Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Cymraeg iaith gyntaf

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

156.Ar draws yr ysgol, mae agweddau disgyblion tuag at ddysgu Cymraeg yn gadarnhaol iawn a gwnânt gynnydd da iawn ym mhob agwedd o'r pwnc.

157.Mae dealltwriaeth y disgyblion o'r iaith yn dda iawn am eu bod yn gwrando mor dda yn y gwersi. Yn CA1, dilyna disgyblion gyfarwyddiadau yn gywir ac ymatebant yn gyflym iawn i orchmynion.

158.Yn CA1, siarada mwyafrif y disgyblion yn eglur yn y dosbarth a sgwrsio gyda'i gilydd mewn dull rhwydd a naturiol.

159.Datblyga medrau darllen yn dda iawn yn CA1. Darllena disgyblion er pleser a siaradant yn synhwyrol am y llyfrau maent yn darllen yn gyfredol. Gallant ddatrys geiriau yn dda iawn a mwynhânt ddarllen yn ystod sesiynau darllen dosbarth.

160.Mae medrau ysgrifennu yn datblygu'n dda iawn yn CA1. Mae disgyblion yn ymarfer eu medrau ysgrifennu yn rheolaidd ac ysgrifennant storïau ysgogol yn ogystal â barddoniaeth ddiddorol.

161.Yn CA2, adeilada'r disgyblion ar y cynnydd da iawn a wnaed yn y blynyddoedd cynharach. Mae medrau gwrando a siarad yn parhau i ddatblygu'n dda iawn. Siarada disgyblion hŷn yn synhwyrol am eu profiadau yn yr ysgol a thrafodant ystod o bynciau cyfoes gydag ymwelwyr. Mynegant hoffterau yn eglur a chefnogi eu safbwyntiau gyda ffynonellau tystiolaeth a ystyriwyd yn dda.

162.Yn CA2, mae disgyblion yn darllen ystod eang o lyfrau a thrafodant y prif gymeriadau a themâu gyda gradd brin o aeddfedrwydd. Maent yn ymroi yn union i drafodaethau dosbarth am eu hoff awduron ac yn cymharu cryfderau amrywiaeth o waith ffuglen fodern.

163.Mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu'n dda iawn yn CA2. Ysgrifennant mewn gwahanol ffurfiau ac ymfalchïant yn fawr yn eu cyfansoddiadau ysgrifenedig. Maent yn drafftio ac ail-ddrafftio eu gwaith cyn rhoi'r fersiwn terfynol i'w farcio. Yn gyffredinol, mae ansawdd cyflwyniad y gwaith yn rhagorol.

Diffygion

164.Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Mathemateg

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

165.Ymateba'r holl ddisgyblion yn dda iawn mewn sesiynau llafar a mathemateg y pen. Maent yn awyddus i gymryd rhan mewn gwersi ac arddangosant

wybodaeth dda iawn o'r iaith a ddefnyddir mewn mathemateg yn y ddau gyfnod allweddol.

166.Cyflawna disgyblion safonau canmoladwy a gwnânt gynnydd da iawn yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fathemateg yn y ddau gyfnod allweddol.

167.Yn CA1, mae gan y mwyafrif helaeth o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o fondiau a phatrymau rhif. Mae disgyblion B1 yn gyfarwydd iawn gyda rhifau hyd at 100. Mae ganddynt ymdeimlad da o werth lle. Datblyga disgyblion B2 dealltwriaeth dda o rifau hyd at 1000. Maent yn gwybod ac yn gallu cymhwyso tablau dau a deg.

168.Defnyddia disgyblion CA1 eirfa fathemategol ar gyfer siapau dau a thri-dimensiwn yn dda iawn a deallant weithrediad lluosi, adio a thynnu. Medrant gofnodi rhifau sydd yn fwy neu'n llai na unrhyw rif a rhoddir.

169.Medra disgyblion weithio'n hyderus iawn wrth ddefnyddio llinell amser a gweithiant yn dda iawn mewn grwpiau i ddisgrifio ac ehangu dilyniannau rhif. Gwnânt ddefnydd effeithiol iawn o TGCh er mwyn atgyfnerthu, cyfuno ac ehangu eu gwybodaeth fathemategol.

170.Mae gan ddisgyblion yn CA1 ddealltwriaeth dda iawn o odrifau ac eilrifau a gallant amcangyfrif rhifau a mesuriadau mewn ystod o gyd-destunau ymarferol. Medrant ddatrys posau a phroblemau o sefyllfaoedd bywyd da iawn a gallant egluro i oedolion sut y gellir datrys y problemau.

171.Mae disgyblion yn CA2 yn hyderus iawn wrth weithio gyda rhifau a defnyddiant a chymhwysant eu gwybodaeth yn effeithiol iawn. Mae gan ddisgyblion yn B3 yn benodol, dealltwriaeth dda iawn o werth lle ac maent yn hyderus wrth ddefnyddio rhifau positif a negatif.

172.Gall disgyblion B4 adnabod ffracsiynau syml ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o amser. Gallant ddweud yr amser mewn munudau a mesur trwy ddefnyddio ystod o unedau safonol.

173.Mae gan ddisgyblion hŷn ddealltwriaeth dda iawn o luosi, rhannu, a phroblemau tebygolrwydd. Gweithia disgyblion B6 yn hyderus wrth gynllunio tŷ, gan arddangos dealltwriaeth dda o siapau, onglau, perimedr ac arwynebedd. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o'r berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chyfartaleddau.

174.Yn gyffredinol mae gallu mathemateg y pen disgyblion yn datblygu'n dda ac maent yn cyfiawnhau eu hymatebion trwy ddefnyddio rhesymu mathamategol dilys. Erbyn diwedd CA2, mae gan y mwyafrif drefniadaeth nodedig o ddulliau mathamategol er mwyn cyrraedd ateb.

Diffygion

175.Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Celf

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

176. Mae gwaith celf y disgyblion sydd yn cael eu harddangos yn y dosbarthiadau, yn y neuadd ac ar safwe'r ysgol o ansawdd da ac wedi ei gyflwyno'n dda. Ymgymera'r disgyblion ag ystod eang o waith, sydd yn dangos defnydd da o linell, tôn, siâp, ffurf a gwead.

177. Gwna disgyblion CA1 gynnydd da yn y defnydd o batrwm a lliw. Defnyddiant fodelau dau a thri-dimensiwn, megis masgiau, a chreu draig Tsieineaidd maint llawn, wedi ei seilio ar thema'r dosbarth a gwaith stori. Mae disgyblion CA1 yn creu cynrychioliadau da o botiau clai, a welsant yn Neuadd Llanofer.

178. Gwna'r disgyblion ddefnydd da o ddeunyddiau yn y parciau lleol ar gyfer braslunio, a datblygant eu technegau arlliwio a gwneud patrymau yn dda.

179. Arddangosa disgyblion CA2 medrau arsylwi da wrth gopïo gwaith gan Shiani Rhys Jones a Picasso. Gweithia'r disgyblion yn dda wrth ddefnyddio golosg ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o effaith dywyll a golau ar wrthrych.

180. Mae disgyblion B4 yn arbrofi gyda gwahanol ddulliau o baentio portreadau a gwnânt ddefnydd da o ddelweddau portread allan o gylchgronau fel *collage* ar gyfer arddangosfa gefndirol.

181. Mae disgyblion B6 yn paratoi brasluniau o gerfluniau a welsant ym Mae Caerdydd. Maent yn creu modelau cymhleth drwy ddefnyddio craig laid, gwifrwe tenau a phlastig.

182. Gwna disgyblion hŷn CA2 elwa o weithio gydag arlunwyr lleol, a chyflawnant safon dda o waith wrth greu cwareli gwydr lliwgar ar gyfer y dosbarth.

183. Yn y ddau gyfnod allweddol, gweithia'r disgyblion yn hyderus a llwyddiannus ar gyfrifiaduron i greu lluniau a phatrymau sydd yn dangos dealltwriaeth dda o bwysigrwydd llinell a lliw.

184. Mae safonau cyflawniad disgyblion yn gwella'n aruthrol o ganlyniad i ymweliadau ag arddangosfeydd celf, megis Artes Mundi yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac amrywiaeth o orielau celf yng Nghaerdydd.

Diffygion

185. Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Addysg gorfforol

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

186. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn gwisgo'n briodol ar gyfer y gweithgareddau a deallant fod gweithgareddau corfforol rheolaidd yn bwysig ar gyfer ffordd iachus o fyw.

187. Ymgymera disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn frwdfrydig â gweithgareddau 'twymo i fyny' a deallant ei bwrpas. Ymatebant yn dda i

gyfarwyddiadau, gan ddangos ymddygiad da o ran chwarae teg fel unigolion, mewn gweithgareddau pâr a grŵp.

188. Yn CA1, dangosa disgyblion rheolaeth dda wrth symud o amgylch iard yr ysgol, gan ddefnyddio'r gofod ar gael yn dda. Gwnânt gynnydd da wrth archwilio symudiadau ac maent yn ymwybodol o'r osgo angenrheidiol er mwyn perfformio'n llwyddiannus.

189. Yn CA2, ymateba disgyblion yn dda i gyfarwyddiadau yn ystod sesiynau 'twymo i fyny' a medrant gynhyrchu rhediad o symudiadau gan ddefnyddio ystod o weithrediadau yn llwyddiannus. Maent yn arddangos rheolaeth a dychymyg da, gan amrywio'r ffyrdd o symud o amgylch neuadd yr ysgol.

190. Mae disgyblion CA2 yn cymhwyso a mireinio eu symudiadau yn dda wrth iddynt drosglwyddo pwysau o'u dwylo i'w traed, gan gydbwyso, rholio a throi wrth iddynt wneud.

191. Mae disgyblion CA2 yn frwdfrydig wrth gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau allgyrsiol a chystadleuol, sydd yn llwyddiannus yn ehangu ystod profiadau disgyblion o addysg gorfforol ac yn gwella ei safon cyflawniad yn y pwnc yn gyffredinol.

192. Mae gan ddisgyblion CA2 medrau dadansoddol da, a defnyddiant y rhain wrth werthuso eu perfformiad eu hunain ac eraill. Mae disgyblion yn awyddus i gymryd eu tro i arsylwi a gwerthuso perfformiadau ei gilydd.

Diffygion

193. Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Addysg grefyddol

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

194. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o addoldai yn dda a chânt eu cyfoethogi gan ymweliadau priodol i'r ddinas.

195. Mae gan ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol wybodaeth a dealltwriaeth o Gristnogaeth sydd yn briodol i'w hoedran. Mae disgyblion CA1 yn gwybod am y digwyddiadau pwysig sy'n cymryd lle mewn eglwys a bod y Beibl yn llyfr arbennig.

196. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn trafod eu teimladau ac yn datblygu dealltwriaeth o berthynas delfrydol gydag eraill a chyfrifoldebau o fewn y gymuned.

197. Yn CA2, mae gan ddisgyblion dealltwriaeth dda o fywyd a gwaith enwogion crefyddol y ganrif ddiwethaf, megis Martin Luther King a'r Fam Teresa.

198. Yn CA2, mae disgyblion yn arddangos ymwybyddiaeth gynyddol o Islam ac Iddewiaeth. Defnyddiant eirfa gywir wrth drafod y seremonïau a'r symbolau priodol a gysylltir gyda'r credoau yma o wledydd eraill.

199. Yn CA2, mae disgyblion mwy galluog yn cynnig nodweddion tebyg rhwng gwahanol gredoau, gan gynnwys credu yn Nuw, pwysigrwydd gweddïo a mynychu man addoli.

Diffygion

200.Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Hoffai'r corff llywodraethol longyfarch staff a disgyblion Treganna ac ymestyn eu diolch i'r tîm arolygu am ansawdd yr adroddiad yma.

Atodiad A

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gymraeg Treganna
Math o ysgol	Gynradd
Ystod oedran y disgyblion	4-11
Cyfeiriad yr ysgol	Heol Radnor Treganna Caerdydd
Cod post	CF5 1RB
Rhif ffôn	029 2038 3887

Pennaeth	Mr R Harries BA. MSc.
Dyddiad penodi	Medi 1995
Cadeirydd y llywodraethwyr	Mrs M Evans
Arolygydd cofrestredig	Dr David G Evans
Dyddiadau'r arolygiad	3-5 Ebrill 2006

Atodiad B

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	0	30	22	30	21	26	23	18	170

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	8	2	8.5

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	20:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	N/A
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	N/A
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	24
Cymhareb athro (call): dosbarth	1:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad		
Tymor	D	Gweddill yr ysgol
Hydref 2004	93.09%	96.6%
Gwanwyn 2005	94.2%	95.0%
Haf 2005	95.63%	95.7%

Canran y disgyblion gyda'r hawl i brydau ysgol am ddim	0.01%
Nifer y disgyblion wedi'u gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0%

Atodiad C

Canlyniadau Asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd Cyfnod Allweddol 1:

Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2005		Nifer y disgyblion yn B2					20
Canran y disgyblion ar bob lefel							
			D	W	1	2	3
Cymraeg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	80	20
		Cenedlaethol	0	2	11	64	23
Cymraeg: llafaredd	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	80	20
		Cenedlaethol	1	2	12	63	22
Cymraeg: darllen	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	75	25
		Cenedlaethol	0	3	16	59	22
Cymraeg: ysgrifennu	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	80	20
		Cenedlaethol	1	3	20	65	11
Mathemateg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	80	20
		Cenedlaethol	0	2	11	63	24
Gwyddoniaeth	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	11	89	0
		Cenedlaethol	0	2	10	65	23

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro			
Yn yr ysgol	89	Yng Nghymru	80

Diwedd Cyfnod Allweddol 2:

Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2005			Nifer y disgyblion yn B6								25
Canran y disgyblion ar bob lefel											
			D	A	F	W	1	2	3	4	5
Saesneg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	27	73
		Cenedlaethol	1	1	0	0	1	5	16	46	30
	Prawf/Tasg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	24	76
		Cenedlaethol	1	1	2	0	0	4	13	42	37
Cymraeg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	44	56
		Cenedlaethol	1	0	0	1	1	4	23	49	20
	Prawf/Tasg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	44	56
		Cenedlaethol	1	1	0	0	1	3	15	49	30
Mathemateg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	44	56
		Cenedlaethol	0	0	0	1	1	4	18	45	31
	Prawf/Tasg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	44	56
		Cenedlaethol	0	1	1	0	0	3	15	43	36
Gwyddoniaeth	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	60	40
		Cenedlaethol	1	0	0	0	0	2	12	50	35
	Prawf/Tasg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	64	32
		Cenedlaethol	0	1	0	0	0	1	8	51	39

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf)			
yn ôl Asesiad Athro		yn ôl Prawf	
Yn yr ysgol	100%	Yn yr ysgol	96%
Yng Nghymru	72%	Yng Nghymru	72%

D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad D

Sail dystiolaeth yr arolygiad

- Gwnaeth tîm o dri arolygydd, oedd yn bresennol am saith niwrnod arolygu, ymgymryd â'r arolygiad.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd cyn-arolwg gyda'r rhieni a'r corff llywodraethol i drafod bywyd a gwaith yr ysgol.
- Dadansoddwyd y 56 o holiaduron a gwblhawyd gan y rhieni yn ofalus.
- Cafwyd trafodaethau gyda'r pennaeth, y staff â chyfrifoldebau a'r staff ategol.
- Dadansoddwyd dogfennau gwahanol yn yr ysgol.
- Arsylwyd ar 27 o wersi neu sesiynau.
- Archwiliwyd sampl o waith disgyblion ar draws yr ystod gallu ym mhob grŵp blwyddyn.
- Gwrandawodd yr arolygwyr ar sampl o ddisgyblion yn darllen.
- Cafwyd trafodaethau gyda'r disgyblion am eu gwaith ac am fywyd yr ysgol.
- Arsylwyd ar ymddygiad disgyblion yn ystod adeg egwyl, amser cinio ac ar ddiwedd a dechrau sesiynau'r ysgol.
- Gwnaeth arolygwyr fynychu gwasanaethau ac arsylwi gweithgareddau allgyrsiol.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd ôl-arolwg gyda'r staff a'r corff llywodraethol.

Atodiad E

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Dr David G Evans Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun Crynodeb Argymhellion Cwestiynau allweddol 1, 2, 5 a 6 Cymraeg iaith gyntaf addysg gorfforol addysg grefyddol
Mrs C Griffiths Arolygydd Tîm	Cwestiynau allweddol 3, 4 a 7 plant dan bump mathemateg celf
Mr G Jones Arolygydd Lleyg	Cyfraniadau i Gwestiynau allweddol 1, 3, 4 a 7
Mr R Harries Enwebai	Cyfraniadau i'r Cwestiynau allweddol

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni am eu cydweithrediad a'u cwrteisi trwy gydol yr arolygiad.

Y Contractwr oedd:
EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît H, Tŷ Britannic
Llandarsi
Castell Nedd SA10 6JQ